

Diweddariad ar Gynllun Gweithredu Polisi y Gymraeg

Cyhoeddwyd Polisi y Gymraeg gan Comisiwn y Gyfraith yn Medi 2017. Ar ôl blwyddyn, rwyf wedi adolygu, yn bersonol, effeithiolrwydd y polisi. Gweler fy nghasgliadau yn y tabl isod.

Yn syml, y prif beth yw sicrhau bod ymwybyddiaeth y polisi yn parhau i fod yn gryf ar gyfer holl staff y Comisiwn. Oherwydd trosiant staff, a'r pwysau i ddechrau gwaith yn gyflym ar nifer fawr o brosiectau ar yr un pryd (yn dilyn cymeradwyaeth y 13^{eg} Rhaglen), mae angen inni sicrhau yn barhaus bod dulliau mewn lle i roi sylw i'r polisi, er enghraifft mewn rhaglenni rhagarweiniol ar gyfer staff newydd.

Er hynny, rwy'n fodlon bod y Polisi wedi'i ymgorffori o fewn ein gwaith ni.

Phil Golding, Prif Weithredwr
Medi 2018

Cam gweithredu	Math o weithredu	Y diweddaraaf fel yr oedd yn Awst 2018
Bydd y Comisiwn yn gwneud datganiad corfforaethol am ymrwymiad Comisiwn y Gyfraith am yr egwyddor bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael ei thrin yn gyfartal wrth gynnal gwaith cyhoeddus yng Nghymru.	Cyhoeddi'r Polisi hwn am y Gymraeg, darparu datganiad i'r wasg unwaith mae'r polisi wedi'i gymeradwyo ac mae rhaid rhoi gwybod i'r rhanddeiliaid perthnasol yng Nghymru.	Wedi'i gwblhau
	Trafodir y Polisi hwn am y Gymraeg yng nghynllun busnes nesaf Comisiwn y Gyfraith.	Wedi'i gwblhau - trafodwyd yng Nghynllun Busnes 2017, gyda chynnydd wedi'i adrodd yng nghynllun 2018.
	Trafodir y Polisi hwn am y Gymraeg yn Adroddiad Blynnyddol Comisiwn y Gyfraith.	Wedi'i gwblhau
	Darparu copïau o'r polisi hwn i bob Comisiynydd a phob aelod o staff, yn ogystal â chyhoeddi'r ddogfen ar fewnrwyd a gwefan y Comisiwn.	Wedi'i gwblhau
	Datblygir rhaglen hyfforddi	Cynhaliwyd hyfforddiant

	staff er mwyn i bob aelod o staff presennol dderbyn hyfforddiant am sut i gydymffurfio â'r polisi hwn a bydd aelodau newydd o staff yn derbyn yr un hyfforddiant fel rhan o'u rhaglen rhagarweiniol i'r Comisiwn.	staff yn 2017 a thrafodir y polisi yn rhaglen rhagarweiniol y Cynorthwyr Ymchwil yn ogystal â rhestr gwirio'r rhaglen rhagarweiniol ar gyfer yr holl staff.
	Bydd staff presennol yn derbyn hyfforddiant am sut i gydymffurfio â'r polisi hwn a bydd aelodau newydd o staff yn derbyn yr un hyfforddiant fel rhan o'u rhaglen rhagarweiniol i'r Comisiwn. Cedwir cofnod o'r holl hyfforddiant staff wedi'u cwblhau.	Mae staff presennol wedi derbyn hyfforddiant ac mae staff newydd wedi cael gwybod o'r polisi. Ar sail bod pob aelod o staff newydd yn cael gwybod o'r polisi, nid oes angen cadw cofnod o hyn.
Bydd y Comisiwn yn cyflwyno hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog wrth ddefnyddio'r hunaniaeth honno yng Nghymru.	Darparu cardiau busnes dwyieithog i'w defnyddio gan Gomisiynwyr a staff sy'n debygol o'u defnyddio yng Nghymru.	Wedi'i gwblhau. Mae cardiau ar gyfer y Cadeirydd newydd wedi'u harchebu.
	Darparu bathodynau enwau dwyieithog i'w defnyddio gan Gomisiynwyr a staff sy'n debygol o'u defnyddio yng Nghymru.	Wedi'i gwblhau, ond mae'r defnydd o fathodynau enwau yn lleihau.
Bydd pob hysbysiad cyhoeddus a chyhoeddusrwydd gan y Comisiwn yng Nghymru yn cael eu darparu yn ddwyieithog. Wrth ddarparu deunyddiau dwyieithog, dylai'r drefn ganlynol gael ei defnyddio: Cymraeg yn gyntaf, wedyn y Saesneg.	Wrth ddarparu posteri neu daflenni yn cyhoeddi digwyddiad yng Nghymru, dylai rhain gael eu cyflwyno yn ddwyieithog fel a ddisgrifir uchod.	Wedi'i gwblhau ond yn barhaus.
Wrth gynllunio gwefannau newydd, neu ailddatblygu gwefannau presennol, bydd y Comisiwn yn ystyried canllawiau a safonau'r meddalwedd dwyieithog	Dylai'r holl staff edrych ar y canllawiau a chyfarwyddyd arall os gwneir newidiadau i adrannau cyfredol y Gymraeg ar y wefan.	Mae Comisiwn y Gyfraith wrthi yn ystyried ei ddarpariaeth allanol ar gyfer ei wefan a bydd yn sicrhau bod y Gymraeg yn rhan

Pan fydd y Comisiynydd y Gymraeg ac unrhyw gyfarwyddyd arall a roir gan Comisiynydd y Gymraeg.		allweddol o'n sylwadau.
Pan fydd y Comisiwn yn rhyddhau datganiad i'r wasg yn Lloegr a Chymru drwy'r wasg genedlaethol a'r cyfryngau darlledu, bydd yn ystyried a oes dyletswydd arnynt i weithredu yn unol ag adran 7 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 sy'n gofyn am y datganiad i'w ryddhau yn Saesneg ac yn Gymraeg. Bydd datganiadau i'r wasg a roir i'r wasg Gymraeg a'r cyfryngau darlledu yn Nghymru yn cael eu rhyddhau yn Gymraeg ac yn Saesneg.	Dylai'r rheolwr cyfathrebu ryddhau datganiadau i'r wasg ar gyfer y wasg Gymraeg a'r cyfryngau darlledu yn y ddwy iaith, gan ddefnyddio'r gwasanaethau cyfieithu perthnasol.	Wedi'i gwblhau ond yn barhaus.
	Dylai'r rheolwr cyfathrebugofnodi pob benderfyniadau a wneir pa un a fydd y datganiad yn cael ei gyfieithu yn Gymraeg neu beidio, er mwyn sicrhau bod y Comisiwn yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i weithredu yn unol ag adran 7 y Ddeddf.	Bydd trafodaeth dwy ffordd rhwng y Pennaeth Cyfathrebu a'r tîm cyfreithiol perthnasol yn penderfynu a oes angen gwasanaethu cyfieithu. Bydd cofnod o'r trafodaethau hyn yn cael ei gadw yn JustStore, sef ein system storio dogfennau ar-lein.
Bydd y Comisiwn yn sicrhau bod y staff sy'n rhan o'r broses creu polisi, a'r paratoi cyfarwyddiadau ar gyfer deddfwriaeth newydd, yn ystyried y polisi hwn a'r cyfrifoldebau o dan Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.	Dylai staff gael ei hysbysu o'r angen i ddefnyddio Fframwaith Asesu Effaith ar yr Iaith Gymraeg, fel a welir yn Atodiad 3, a'u hyfforddi am sut i'w ddefnyddio, fel rhan o'r rhaglen hyfforddi staff i'w datblygu ynglŷn â gweithredu polisi y Gymraeg.	Wedi'i gwblhau, ond yn barhaus.
Bydd y Comisiwn yn rhoi hawl i aelodau'r cyhoedd ddewis a ydynt yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrth y Comisiwn yn Gymraeg neu yn Saesneg a bydd rhaid cadw cofnod o'r dymuniad hwnnw er mwyn i'r Comisiwn allu weithredu â'i gysylltiadau yn briodol.	Dylai'r Comisiwn greu proses ar gyfer cofnodi iaith ddewisol bob un o'i gysylltiadau, yn cofnodi'r dewisiadau hyn pan fynegir ac yn gweithredu yn unol â'r dewisiadau hyn, gan ddefnyddio cronfa ddata rhanddeiliaid arfaethedig.	Mae cronfa ddata Kahootz yn gwneud cofnod o'r rhai sy'n dymuno gohebu yn Gymraeg a bydd timau yn cael eu hysbysu o'r angen i gofnodi'r wybodaeth hon fel y bo'n briodol.
Bydd y Comisiwn yn sicrhau bod unrhyw ohebiaeth wedi'i chyfeirio at aelod o'r cyhoedd yng Nghymru yn cael ei llunio ar bapur	Bydd yr holl staff yn defnyddio'r papur penawd dwyieithog sydd eisoes ar gael.	Wedi'i gwblhau, ond yn barhaus.

pennawd dwyieithog, waeth beth pa un a ysgrifennir y llythyr yn Gymraeg neu beidio.	Pan dderbynir gohebiaeth ysgrifenedig yn Gymraeg, yna fydd pob aelod o staff yn ymateb yn Gymraeg o fewn yr un terfyn amser ag unrhyw ohebiaeth arall.	Wedi'i gwblhau, ond yn barhaus.
Bydd y Comisiwn yn defnyddio llofnodion e-byst dwyieithog wrth anfon e-bost at berson yng Nghymru.	Bydd angen trefnu bod templed llofnod e-bost yn cael ei gyfieithu, er mwyn i bob aelod o staff allu ei defnyddio (yn ddarostyngedig i newid enw, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost) wrth anfon e-bost at unigolyn yng Nghymru.	Wedi'i gwblhau, ond yn barhaus.
Pan fydd y Comisiwn yn trefnu digwyddiad cyhoeddus neu ddigwyddiad nad yw ar agor i'r cyhoedd yng Nghymru, bydd unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd yn Gymraeg ac yn Saesneg a bydd croeso i bobl gyfathrebu yn Gymraeg neu yn Saesneg.	Dylai hysbysiadau a gwahoddiadau i ddigwyddiadau wedi'u trefnu gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, yn ogystal ag yn Saesneg, a dylai fod yn glir bod croeso i unrhyw un sy'n bresennol gyfathrebu yn Gymraeg neu yn Saesneg. Dylent ofyn i bob person a wahoddir i'r digwyddiad hysbysu'r Comisiwn a yw'n dymuno cyfathrebu yn Gymraeg neu yn Saesneg, ac i roi 14 diwrnod o rybudd cyn i'r digwyddiad gychwyn.	Wedi'i gwblhau, ond yn barhaus.
Pan ddarperir rhybudd o ddymuniad i gyfathrebu yn Gymraeg mewn digwyddiad, bydd y Comisiwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu yn y digwyddiad a chyfieithiad o'r deunyddiau wedi'u paratoi gan y Comisiwn ar gyfer y rhai a fydd yn mynychu'r digwyddiad eu defnyddio.	Pan fydd person yn dymuno cyfathrebu yn Gymraeg, bydd rhaid darparu gwasanaeth cyfieithu a deunyddiau. Wedi ystyried y cyfarwyddyd yn Atodiad A, dylai'r staff benderfynu y math o wasanaeth cyfieithu i'w ddarparu mewn digwyddiadau.	Wedi'i gwblhau ond yn barhaus.
	Os na dderbynnir rhybudd o ddymuniad i gyfathrebu yn Gymraeg mewn	Wedi'i gwblhau ond yn barhaus.

	digwyddiad, bydd dal angen i staff ystyried y cyfarwyddyd a welir yn Atodiad A Cynllun y Gymraeg i benderfynu a yw'n briodol ac yn rhesymol ymarferol i gynnig gwasanaeth cyfieithu a/neu gyfieithu deunyddiau.	
	Pan fydd y cyfarwyddyd yn Atodiad A yn awgrymu bod angen darparu gwasanaeth cyfieithu mewn ffurf arbennig, darperir y gwasanaeth yn y ffurf honno a bydd cofnod corfforedig yn cael ei gadw o'r penderfyniad hwnnw.	Wedi'i gwblhau ond yn barhaus.
	Dylai staff gael gwybod o'r angen i ddefnyddio'r cyfarwyddyd am y gwasanaeth cyfieithu a ddisgrifir yn Atodiad A, fel rhan o'r rhaglen hyfforddi staff i'w datblygu ynglŷn â gweithredu polisi y Gymraeg.	Wedi'i gwblhau ond yn barhaus.
Pan fydd y Comisiwn yn trefnu digwyddiadau cyhoeddus yn Lloegr (ac yn eu cyhoeddi yn benodol yng Nghymru), ond nad oes digwyddiad o'r fath i'w gynnal yng Nghymru, felly byddai disgwyl i aelodau'r cyhoedd yng Nghymru fynychu'r digwyddiadau tu allan i Gymru er mwyn derbyn y gwasanaeth hwnnw, yna fydd y cyhoeddusrwydd yn ddwyieithog a dylai fod yn glir bod croeso i unrhyw un sy'n bresennol gyfathrebu yn Gymraeg neu yn Saesneg.	Dylai hysbysiadau a gwahoddiadau i ddigwyddiadau wedi'u trefnu gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, yn ogystal ag yn Saesneg, a dylai fod yn glir bod croeso i unrhyw un sy'n bresennol gyfathrebu yn Gymraeg neu yn Saesneg. Dylent ofyn i bob person a wahoddir i'r digwyddiad hysbysu'r Comisiwn a yw'n dymuno cyfathrebu yn Gymraeg neu yn Saesneg, ac i roi 14 diwrnod o rybudd cyn i'r digwyddiad gychwyn.	O 4 Medi ymlaen a fel y bo'r angen.

Pan ddarperir rhybudd o ddymuniad i gyfathrebu yn Gymraeg mewn digwyddiad yn Lloegr, bydd y Comisiwn yn ystyried y cyfarwyddyd a welir yn Atodiad A i benderfynu a yw'n briodol ac yn rhesymol ymarferol i ddarparu'r ddau neu naill neu'r llall o wasanaethau cyfieithu yn y digwyddiad a chyfieithu'r deunyddiau wedi'u paratoi gan y Comisiwn ar gyfer y rhai a fydd yn mynychu'r digwyddiad eu defnyddio.	Pan dderbynnir hysbysiad o ddymuniad i gyfathrebu yn Gymraeg, dylai'r cyfarwyddyd a welir yn Atodiad A gael ei ystyried i benderfynu a yw'n briodol felly ac yn rhesymol ymarferol i ddarparu gwasanaeth cyfieithu a/neu cyfieithu deunyddiau.	Wedi'i gwblhau ond yn barhaus.
	Pan fydd y cyfarwyddyd yn Atodiad A yn awgrymu bod angen darparu gwasanaeth cyfieithu mewn ffurf arbennig, darperir y gwasanaeth yn y ffurf honno a bydd cofnod corfforedig yn cael ei gadw o'r penderfyniad hwnnw.	Wedi'i gwblhau ond yn barhaus.
	Dylai staff gael gwybod o'r angen i ddefnyddio'r cyfarwyddyd am y gwasanaeth cyfieithu a ddisgrifir yn Atodiad A, fel rhan o'r rhaglen hyfforddi staff i'w datblygu ynglŷn â gweithredu polisi y Gymraeg.	Wedi'i gwblhau ond yn barhaus.
Bydd y Comisiwn yn defnyddio'r system categoreiddio a welir yn Atodiad B i benderfynu a ddylai cyhoeddiadau gael eu cyfieithu yn Gymraeg, a pha fformat o gyfieithu ddylai gael ei ddefnyddio ar gyfer y cyhoeddiad.	Dylai'r holl staff ddefnyddio'r system categoreiddio a welir yn Atodiad B i benderfynu a ddylai cyhoeddiadau gael eu cyfieithu yn Gymraeg, a pha fformat o gyfieithu ddylai gael ei ddefnyddio ar gyfer y cyhoeddiad.	Wedi'i gwblhau ond yn barhaus.
	Pan fydd y cyfarwyddyd yn Atodiad A yn awgrymu bod angen cael cyfieithiad, dylai cyfieithu o ffurf briodol gael ei ddefnyddio a dylai cofnod corfforedig gael ei gadw o'r penderfyniad hwnnw.	Wedi'i gwblhau ond yn barhaus.

	Dylai staff gael eu hysbysu o'r angen i ddefnyddio'r system categoraiddio a welir yn Atodiad B, fel rhan o'r rhaglen hyfforddi staff i'w datblygu ynglŷn â gweithredu polisi y Gymraeg.	Wedi'i gwblhau ond yn barhaus.
	Bydd y fersiwn Cymraeg neu fersiwn dwyieithog o'r cyhoeddiad terfynol ar gael o fewn yr un terfyn amser a'r fersiwn Saesneg.	Mae'r Comisiwn wedi cyflawni hyn ond pob un ond un achlysur lle roedd oedi wrth dderbyn cyfieithiad. Roedd hyn yn golygu bod ychydig o oedi wrth gyhoeddi'r fersiwn Cymraeg.
Wrth hysbysebu ar gyfer Comisiynwyr ac aelodau staff newydd, bydd y Comisiwn yn defnyddio deunyddiau hysbysebol ychwanegol yn ddwyieithog lle bydd y rôl honno yn gofyn am gymryd rhan mewn prosiect penodol yn Gymraeg.	Wrth hysbysebu ar gyfer Comisiynwyr ac aelodau staff newydd yn yr amgylchiadau hyn, cyhoeddir deunyddiau hysbysebol ychwanegol yn ddwyieithog.	Rydym wrthi yn gweithio ar ddisgrifiadau swyddi diwygiedig ar gyfer staff a byddwn yn sicrhau bod y disgrifiadau yn cael eu cyfieithu yn Gymraeg wedi eu cwblhau. Byddwn yn ceisio darparu dolenni ar gyfer rhain o'r hysbysebion recriwtio generig y Gwasanaeth Sifil. Rydym eisoes yn sicrhau bod deunyddiau hysbysebol ar gael yn ddwyieithog ar gyfer Cynorthwywyr Ymchwil.
Bydd y Comisiwn yn defnyddio deunyddiau hysbysebol ychwanegol yn ddwyieithog wrth hysbysebu ar gyfer Cynorthwywyr Ymchwil yn flynyddol.	Wrth hysbysebu ar gyfer Cynorthwywyr Ymchwil newydd, cyhoeddir deunyddiau hysbysebol ychwanegol yn ddwyieithog.	Wedi'i gwblhau, ond yn barhaus.
Bydd y Comisiwn yn dynodi unrhyw swyddi a fydd efallai yn codi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu yn ddymunol, a nodi'r lefel o ruglder sydd angen.	Dylai'r holl staff gadw mewn cof bod angen i recriwtio aelodau staff Cymraeg ar gyfer swyddi penodol.	Wedi'i gwblhau. Ystyrir gofynion o'r fath fel rhan o'r gofyn blynyddol am Gynorthwywyr Ymchwil ac yn barhaol gan Pennaeth y Tîm Cyfraith Gyhoeddus a'r Gyfraith Gymru.
Bydd y Comisiwn yn annog	Dylai'r tîm gwasanaethau	Wedi'i gwblhau, ond yn

unrhyw aelod o staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg.	corfforaethol hysbysebu cyfleoedd i staff ddysgu Cymraeg fel y bydd cyfleoedd yn codi.	barhaus. Rhennir cyfrifoldeb am y gweithredu hwn gyda Phennaeth y Tîm Cyfraith Gyhoeddus a'r Gyfraith Gymru.
	Dylai pob rheolwr tîm annog staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg i'w wneud fel rhan o'u cynllun datblygu personol.	Wedi'i gwblhau, ond yn barhaus.
Bydd y Comisiwn yn sicrhau bod yr holl drefniadau a chytundebau gyda thrydydd partion mewn perthynas â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru yn gyson gyda thermau'r polisi hwn a'u bod yn cael eu gweithredu o ganlyniad.	Dylai'r tîm gwasanaethau corfforaethol, wrth wneud cytundeb gyda thrydydd partion mewn perthynas â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, sicrhau bod y trydydd parti mewn sylw yn gyfarwydd â thermau'r polisi hwn a'i ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau o'r fath mewn ffordd sy'n gyson gyda'r termau rheini.	Wedi'i gwblhau, ond yn barhaus. Serch hynny, nid oes amgylchiadau o'r fath wedi codi hyd at hyn.
	Dylai'r grŵp Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru fonitro cydymffurfiaeth y trydydd partion â'r polisi hwn.	Wedi'i gwblhau, ond yn barhaus. Serch hynny, nid oes amgylchiadau o'r fath wedi codi hyd at hyn.
Bydd Prif Weithredwr y Comisiwn yn arolygu'r gweithredu a monitro y polisi hwn.	Dylai'r grŵp Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru fonitro cydymffurfiaeth â'r polisi ddwywaith y flwyddyn a'i hadrodd i'r Prif Weithredwr.	Mae'r Prif Weithredwr, yn bersonol, wedi cynnal arolygiad o'r Polisi ar ôl blwyddyn, ond bydd y Grŵp yng Nghymru yn parhau i fonitro cydymffurfiaeth â'r polisi ddwywaith y flwyddyn.
Bydd Prif Weithredwr y Comisiwn yn ystyried unrhyw gwynion a dderbynnir ynghylch diffyg cydymffurfiaeth â'r polisi a chymryd camau priodol pan fo'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod cydymffurfiaid yn digwydd.	Dylai pob cwyn a dderbynnir gael ei chyfeirio yn y lle cyntaf at bennaeth y Tîm Gwasanaethau Corfforaethol.	Wedi'i gwblhau, ond yn barhaus. Nid oes cwynion o'r fath wedi'u derbyn.
	Dylai cwynion o'r fath gael eu tynnu at sylw y Prif Weithredwr (o fewn 5 diwrnod gwaith) a'u cyfeirio	Wedi'i gwblhau, ond yn barhaus. Nid oes cwynion o'r fath wedi'u derbyn.

	gan y Prif Weithredwr (o fewn 20 diwrnod gwaith) a bydd rhaid i'r Prif Weithredwr gadw cofnod o unrhyw gwyn a dderbynnir ynghylch diffyg cydymffurfiaeth â Chynllun y Gymraeg, gyda chofnod o'r penderfyniad ac unrhyw camau gweithredu yn dilyn ystyriaeth y gwyn gan y Prif Weithredwr.	
Bydd y Comisiwn yn sicrhau bod pob rheolwr tîm yn cymryd cyfrifoldeb dros weithredu a monitro'r polisi yn gysylltiedig â gwaith eu tîm.	Dylai Rheolwyr Tîm weithredu a monitro gweithio'r polisi hwn o fewn eu timau.	Wedi'i gwblhau, ond, mae'r arolygiad wedi darganfod bod yn hen bryd i godi ymwybyddiaeth o'r polisi gyda'r <u>holl</u> staff. Bydd y casgliadau hyn felly yn cael eu rhannu.
Bydd y Comisiwn, yn ei drydedd blwyddyn o weithredu'r polisi, yn paratoi adroddiad gwerthuso, yn gwerthuso ac asesu'r cynnydd o ran gweithredu a chydymffurfiaeth â'r polisi.	I baratoi adroddiad gwerthuso, yn y drydedd blwyddyn o weithredu'r polisi. Bydd angen cyhoeddi hyn yn Gymraeg a Saesneg.	Medi 2020 - ond, bydd y diweddariad hwn ar ein cynllun gweithredu yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.
	Yn dilyn yr adroddiad hwn, adolygu a diwygio'r polisi fel y bo'n briodol.	Medi 2020
Bydd y Comisiwn yn darparu gwybodaeth am Adroddiad Monitro Blynyddol Gweinyddiaeth Cyfiawnder i Gomisiynydd y Gymraeg fel y bo'r angen.	Darparu gwybodaeth am Adroddiad Monitro Blynyddol Gweinyddiaeth Cyfiawnder i Gomisiynydd y Gymraeg fel y bo'r angen.	Wedi'i gwblhau - eisoes mewn grym, yn flynyddol.